# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 12/10/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Carys Roberts | Caren Jones |
| Mared Llywelyn Williams | Sharon Williams | Rhys Llewelyn | Alaw Llewelyn Roberts | Lleucu Jones |
| Gito Williams | Janice Evans | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Pat Humphreys (Clerc), Cai Rees Jones, Arfon Hughes.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Rhys Tudur – Cais am lythyr o gefnogaeth gan CTN i gais cynllunio C21/0668/44/LL – Gethin Jones
   Mared Llywelyn Willaims – Adnewyddu Prydles Llyfrgell Nefyn

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 14/09/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Rhys Llewelyn

4. **Unrhyw Fater Brys**

- **Agor Llwybr yng ngwaelod Lôn yr Ysgol Edern sy'n arwain i'r Gors Wyllt** – Gito Williams
  Nid yw'r llwybr yma wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd maith ac o'r herwydd wedi tyfu'n wyllt, mae'n mynd gyda'r gors i dir Bryn Rhydd, dros yr afon ac yn dod allan ar Lôn Cefn Leisiog ac mae angen ei dorri er mwyn iddo gael ei ddefnyddio unwaith eto.
  Penderfyniad: Mae Cynghorydd Lleol Nefyn am fynd i'w weld ac os oes angen mwy o gymorth arno yna iddo gysylltu hefo Gito Williams ac hefyd i gysylltu hefo Cliff i gael pris am wneud y gwaith.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams
- **Maint Bin Parc y Ddôl** – Sharon Williams
  Mae bin Parc y Ddôl yn orlawn erbyn diwedd yr wythnos bob wythnos ac ddim yn cael ei wagio tan y dydd Mawrth canlynol ac mae hyn wedi bod yn broblem ers blynyddoedd bellach ac mae'r bin sydd yn y Parc wrth ymyl y cae astro yr un fath felly mae angen gwagio'r ddau fin yma yn amlach neu cael dau fin newydd mwy. Mae hyn yn broblem yn Cae Chwarae Edern hefyd ac wedi cael ei godi o'r blaen ac mae'r Cynghorydd Lleol wedi bod ar ei ôl eisioes gyda'r adran berthnasol.
  Penderfyniad: Y Cynghorydd Lleol i fynd ar ôl yr adran berthnasol i ofyn am finiau mwy a'i roi ar agenda mis nesaf er mwyn cael diweddariad.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams
- **Trac BMX Cae Chwarae Bryn Mynach** – Gruffydd Williams
  Cafwyd dyfynbris gan Bryn Ferguson i wneud gwaith ar y trac BMX y llynedd ond ni wnaethpwyd y gwaith felly mae angen cael pris gan gontractwr arall er mwyn gwneud y gwaith i blant gael ei ddefnyddio. Mae'n bwysig hefyd pan fydd y gwaith wedi cael ei wneud ei fod yn cael ei strimmio yn rheolaidd felly fe fydd rhaid gofyn i Cliff wneud hynny.
  Penderfyniad: Y Cynghorydd Lleol i gael pris gan gontractwr arall i adnewyddu y trac BMX.
  Cynnig: Sharon Williams Eilio: Carys Roberts
- **Adnewyddu Prydles Llyfrgell Nefyn**

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Derbyniwyd ebost gan Gethin Jones yn dweud fod cyfnod prydles presennol Llyfrgell Nefyn wedi dod i ben ac felly eu bod angen cadarnhad gan CTN eu bod yn hapus i adnewyddu'r brydles ar yr un telerau a'r brydles bresennol. Cytunodd Sharon Williams i edrych ar y brydles bresennol rhag ofn fod rhywbeth yn codi a cysylltu'r hefo'r clerc wedyn i gadarnhau fod popeth yn iawn i'w adnewyddu.
Penderfyniad: Cytuno i adnewyddu'r brydles oni bai bod yna amod o'r newydd sydd yn sylweddol wahanol.
Cynnig: Rhys Tudur    Eilio: Carys Roberts

5. **Ymateb i Ymgynghoriad y Llywodraeth ar drethi ar ail dai –** Cadeirydd
Derbyniwyd ebost gan Un Llais yn gofyn am ymateb i'r ymgynghoriad yma gan y Llywodraeth sydd yn ymwneud â treth cyngor ar ail dai â'r dreth gyfredol ar lletyau gwyliau. Mae lletyau gwyliau yn cael eu hepgor rhag talu treth Cyngor ac yn yr ymgynghoriad yma maent yn gofyn cwestiynnau os oes angen newid y drefn. Mae'r Cadeirydd yn annog bawb i lenwi'r holiadur yma oherwydd ei fod yn mynd i gael effaith ar ddyfodol ein cymunedau ni. Mae'r Cadeirydd wedi anfon y linc i'r holidaur i bob aelod yn ystod y cyfarfod ac yn gofyn iddynt ei gadw ac yna fe wnaiff anfon copi o'r atebion sydd wedi cael eu paratoi yn barod ganddo a'u hannog i lenwi'r holidaur i fewn yn unigol fel aelodau Cyngor Tref Nefyn.

6. **Cynnig ynglŷn a Chynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn –** Cadeirydd
Mae yna Gynllun Datblygu ar gyfer Gwynedd â Môn ar y cyd sef cynllun sydd yn datgan y polisiau cynlllunio ar gyfer y ddwy sir ac ar y funud nid yw'r polisiau yn gwarchod y cymunedau yn ddigonol ac ddim yn rhoi ystyriaeth gyflawn o'r iaith Gymraeg. Dyma gynigion sy'n galw ar y Llywodraeth i ymyrryd yn y Cynllun Datblygu er mwyn eu atgyfnerthu i adlewyrchu'r ffaith ein bod yn byw mewn ardal o sensitifrwydd ieithyddol a bod angen polisiau cadarn i adlewyrchu hynny. Dyma'r tri cynnig:

**Cynnig 1**

Gan ystyried bod:

- Cynghorwyr Gwynedd yn unfrydol wedi galw am adolygiad brys o Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn "Y Cynllun"
- 47 o Gynghorwyr (mwyafrif y Cyngor) wedi sgwennu at Gabinet y Cyngor yn galw am newidiadau penodol i'r Cynllun
- Dim Adroddiad Monitro wedi bod ar gyfer Gwynedd am y cyfnod Mawrth 2020-21
- Pob un o 65 dangosydd Adroddiad Monitro Mawrth 2019-20, er yr argyfwng tai, yn datgan "nad oes angen newid" i'r Cynllun
- Nad yw y Cynllun fel ag y mae yn darparu digon o warchodaeth i Gymunedau a'r Gymraeg ac nad oes dim byd yn gwirio canlyniad y rhagdybiaethau a wnaed mewn asesiadau ieithyddol;

Rydym yn galw ar y Llywodraeth i ymyrryd yn y Cynllun a'i atgyfnethu fel ei fod yn cynnig gwarchodaeth i broffil ieithyddol sensitif Gwynedd ac i gydymffurfio a nôd Deddf Llesiant o sicrhau bod y Diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu.

**Cynnig 2**

Er mwyn i Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn ('Y Cynllun') wireddu ei eiriau yn ei 'Brif Strategaeth' o 'gyfrannu a chreu mwy o gymunedau gyda 70% o siaradwyr Cymraeg' yn hytrach na gwneud niwed, rydym yn galw ar Bolisi Strategol 1 3a gael ei newid o fod yn datgan:

*3a (G)Wrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau mesurau lliniaru addas neu y gwneir cyfraniad i leihau'r effeithiau hynny.*
(t. 34)

I ddatgan

*(G)Wrthod cynigion fyddai yn achosi niwed i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.*

**<u>Cynnig 3</u>**

Gan ystyried bod ein cymunedau arfordirol a gwledig yn marw oherwydd diffyg rheolaeth ar dai haf; ac mai'r arian a gesglir o bremiwm treth cyngor ar ail dai ydi'r unig 'ffynhonell' ariannol sydd gan Gyngor Gwynedd i helpu pobl ifanc brynu tŷ yn Nwyfor, rydym yn;

Galw ar y Llywodraeth am fwy o gyllid ac i osod rheolau i sicrhau bod arian a godir o bremiymau treth cyngor ar ail dai yn cael ei "ring fencio" ar gyfer cynlluniau cymorth prynu a phrynu i rentu i bobl ifanc ac bod digon o arian yn cael ei ddosbarthu i'r cynlluniau mewn ardaloedd arfordirol sydd â phrisiau tai uchel iawn fel Dwyfor.

Penderfyniad: Pasiwyd y tri cynnig drwy bleidlais yn ddi-wrthwynebiad.

Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

7. **Fframwaith Adfywio Cyngor Gwynedd – Ardal Ni 2035 (Cyngor Tref Nefyn)**
Derbyniwyd ebost nôl ym mis Awst ynglŷn â Fframwiath Adfywio Cyngor Gwynedd ac fe flaenyrrwyd yr ebost i'r aelodau fel y gofynwyd yn yr ebost ond ni chafwyd ymateb felly mae cais arall wedi dod gan Cyngor Gwynedd i'r aelodau ei ail ystyried. Y bwriad yw fod Cyngor Gwynedd am gynnal sgyrsiau hefo Cynghorau Cymuned a Thref am gryfderau, blaenoriaethau a chyfleoedd yn eu cymunedau fel rhan o brosiect 'Ardal Ni 2035' ac fe fydd y sgyrsiau yma yn cynorthwyo cymunedau i adnabod y materion hynny fydd angen sylw yn y 10-15 mlynedd nesaf i wella'r ardal yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.
Penderfyniad: Pasiwyd fod CTN am gymeryd rhan a danghosodd 5 aelod ddiddordeb, y clerc i basio'r wybodaeth ymlaen i Alys Lloyd Jones ac i anfon linc i'r sesiwn rhithiol ymlaen i'r aelodau i gyd er mwyn i unrhyw un arall sydd a diddordeb ymuno.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Caren Jones

8. **Cais i gefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai –** Cymdeithas yr Iaith
Derbyniwyd ebost gan Carol Jenkins Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith yn dweud fod Osian Jones un o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn bwriadu beicio o Gaernarfon i Gaerdydd rhwng 11eg a 13eg o Dachwedd i dynnu sylw at yr argyfwng tai sydd yn effeithio ar gymunedau ar draws Cymru. Maent yn atodi copi o lythyr y bydd Osian yn ei gario hefo fo ac yn ei gyflwyno i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru wedi iddo gyrraedd Caerdydd ac maent yn gofyn i CTN drafod y llythyr a rhoi gwybod iddynt os ydi'r cynghorwyr yn hapus i roi eu henwau i'r llythyr.
Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i gefnogi'r llythyr ac i'r clerc basio enw pob aelod sydd yn bresennol i Gymdeithas yr Iaith er mwyn rhoi eu henwau i'r llythyr fel Cynghorwyr Tref Nefyn.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Rhys Llewelyn

9. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc
Mae'r clerc wedi cysylltu hefo Gethin Jones yn gofyn am ddiweddariad a'r ymateb a gafodd oedd ei fod yn disgwyl cadarnhad gan yr Adran Gyfreithiol os oes ganddynt yr adnoddau i gynorthwy corff

allanol oherwydd fod nifer o newidiadau personel wedi digwydd yno yn ddiddweddar. Addawodd y Cynghorydd Lleol fynd ar ôl yr adran gyfreithiol i ofyn am ddiweddariad.

**10. Coed Nadolig a Gwasaneth Goleuo**

Gan fod y clerc yn absennol fe ddarllennodd y cadeirydd nodiadau'r clerc ynglŷn â'r trefniadau y llynedd. Oherwydd cyfyngiadau covid y llynedd nid oedd gwasanaethau goleuo fel y gwelwyd yn y blynyddoedd a fu yn cael eu cynnal ond yn hytrach dim ond Sion Corn yn mynd o amgylch y pentrefi ac yn rhoi y goleuadau ymlaen felly fe fydd rhaid sicrhau y flwyddyn yma bod pawb yn gytun hefo'r gwasanaethau goleuo yn y tri pentref.

Penderfyniad: Y clerc i gysylltu hefo pob busnes yn Morfa i ofyn os ydynt eisiau cyfrannu.

Cynnig: Mared Llywelyn Williams    Eilio: Catrin Roberts

Penderfyniad: Cadw at yr un trefniadau yn Nefyn ac Edern a'r clerc i gysylltu hefo'r bobol sydd yn arfer cyfrannu

Cynnig: Carys Roberts    Eilio: Caren Jones

Cafwyd cais i Sion Corn Rotari Pwllheli chwarae cerddoriaeth Gymraeg wrth fynd o amgylch y pentrefi gan fod y cerddoriaeth sydd yn cael ei chwarae yn gymysg o Gymraeg a Saesneg a cynigiodd un o'r aelodau brynnu CD cerddoriaeth Gymraeg a'i rhoi i Rotari Pwllheli ar gyfer ymweliadau Sion Corn.

Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau ond bod CTN yn talu am y CD a'i rhoi i Rotari Pwllheli a gofyn iddynt ymrwymo i chwarae y caneuon Cymraeg ar y CD gan fod yr ysgolion lleol wedi ymrwymo i'r siarter iaith er mwyn cadw'r iaith yn fyw ac mae plant y dair ysgol leol wedi bod yn canu caneuon Cymraeg yn y gwasanaethau Cymraeg yma yn y blynyddoedd a fu felly dyma ffordd CTN o gyfrannu tuag hyrwyddo'r siarter iaith.

Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Sharon Williams

**11. Cais gan Sue Cookson (grwp nofio môr Nefyn/Morfa) yngŷn â diffib i draeth Nefyn –** Clerc

Mae Sue Cookson a grŵp o ferched sydd yn nofio yn y môr yn Nefyn a Morfa wedi codi arian ar gyfer diffib i draeth Nefyn ac yn gofyn os fedrith CTN dalu'r anfoneb am y diffib er mwyn iddyn nhw gael sbario talu TAW. Mae CTN yn gallu hawlio'r TAW yn ôl ac fe wnaiff y merched dalu'r swm heb y TAW yn ôl i CTN. Os y bydd CTN yn cytuno i hyn yna mi fydd ganddynt ddigon o arian i gael 2 diffib sef un i Nefyn a'r llall i Morfa.

Penderfyniad: Oherwydd rheolau caeth ariannol ac archwiliad mewnol ac allanol yn cael ei gynnal yn flynyddol nid yw CTN eisiau cael eu cysylltu gyda cais i osgoi talu TAW.

Cynnig: Sharon Williams    Eilio: Rhys Tudur

**12. Prosiect Angor Gadarn – Cais grant Y Grona Datblygu Cynaliadwy – Cais i CTN ariannu'r diffyg -** Gruffydd Williams

Mae CTN wedi derbyn grant i ariannu mynd a'r angor o draeth Nefyn i Tudweiliog a talu i'r gôf ac i'r saer coed am ei adnewyddu hi ond mae'r gôf wedi anghofoio prisio rhai pethau ar gyfer y gwaith ac nid oes amcanbris wedi ei dderbyn ar gyfer y slab concrid sydd yn dal yr angor felly mae chydig o ddiffyg rhwn yr amcanbrisiau ar swm yr arian grant sydd wedi ei basio.

Penderfyniad: Cefnogi'r cais i ariannu'r diffyg.

Cynnig: Carys Roberts    Eilio: Catrin Roberts

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Llythyr Gwilym Williams –** Maes Carafannau Tyn y Cae
  Derbyniwyd llythyr gan Mr Gwilym Williams yn datgan siomedigaeth fod CTN wedi gwrthod ei gais i ymestyn parc carafanau i'r cae cyfagos gan ychwanegu 8 plot Carafanau Statig yn cynyddu cyfanswm y lleiniau o 17 carafan statig i 25. Gan nad oedd cyfarfod ym mis Awst anfonodd y clerc y cais yma allan drwy ebost i'r cynghorwyr i ofyn am eu sylwadau ac fe ddaeth y mwyafrif yn ôl gyda gwrthod – gor-ddatgblygiad o'r safle. Derbyniwyd cynnwys llythyr Mr Gwilym Williams a cafwyd trafodaeth ar y mater ond y teimlad oedd petai'r cais yn gofyn am lai o garafanau statig yna y byddai hynny wedi bod yn fwy derbyniol.

- **Cais Amgueddfa Forwrol am lythyr yn cefnogi cais i gael panel deghongli ar draeth Nefyn –** Jina Gwyrfai
  Cafwyd cais gan Amgueddfa Forwrol Nefyn am lythyr yn cefnogi eu cais i gael byrddau dehongli hanes forwrol Nefyn ar draeth Nefyn.
  Penderfyniad: Pasiwyd i genfogi eu cais.

- **Cais am lythyr o gefnogaeth gan CTN i gais cynllunio C21/0668/44/LL –** Gethin Jones
  Derbyniwyd ebost yn atodi llythyr gan Gethin Jones yn gofyn am lythyr o gefnogaeth gan CTN i'w gais cynllunio.
  Penderfyniad: Pasiwyd i gefnogi ei gais ac anfon llythyr at y pwyllgor cynllunio.
  Cynnig: Sharon Williams Eilio: Carys Roberts

- **Cais am gyfraniad ariannol –** Amgueddfa Forwrol Llŷn
  Derbyniwyd llythyr drwy'r post yn gofyn am gyfraniad ariannol gan Amgueddfa Forwrol Llŷn, mae'r clerc wedi gofyn iddynt am gopi o'i datganiad banc fel sydd yn hanfodol mewn achosion fel hyn ond heb ei dderbyn hyd yn hyn.
  Penderfyniad: Ei roi ar agenda mis nesaf gan obeithio y bydda y datganiad banc wedi ei dderbyn erbyn hynny.

**14. Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0942/42/DT –** Tynpwll Cottage, Lôn Tyn Pwll, Nefyn – Estyniadau a gwelliannau
**Penderfyniad:** Gwrthod – gor-ddatblygiad o'r safle.
Cynnig: Alaw Llewelyn Roberts Eilio: Carys Roberts

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.49
- Gareth Gough Williams – Gwaith Draenio y Rhandiroedd - £1511.64
- D. M. Parry – pedwerydd taliad mynwent Nefyn & ail daliad mynwent Fron - £995.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £264.42
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £15.05
- N Power – Trydan Llyfrgell Nefyn mis Medi - £149.99
- E-On Next – Trydan Siop Siarad mis Medi - £140.95

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**16. Taliadau wedi eu derbyn**

- Janice Owen – Angladd Gwyneth Jones & John David Jones - £730.00
- G.D.Roberts – Angladd Patricia Ann Mathews - £750